# Disgrifiad Rôl
## Aelod Cangen - Cysylltu

National Deaf Children's Society

Click for BSL Translation

### Cysylltydd Cymunedol

Mae'r rôl hon yn rhan o'r Gangen Cysylltu, ac fe'i cefnogir gan Arweinydd y Gangen.

| | |
|---|---|
| **Ystog cyflog:** | **£27,000 - £35,000**<br>**Cam A/B, Prif Aelod o'r Gangen** |
| **Oriau:** | **35** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio o gartref gyda theithio rhanbarthol** |
| **Cytundeb:** | **Cyfnod Penodol** |
| **Lefel Datgeliad:** | **Manylach â rhestr gwahardd** |

### Am y Gangen Cysylltu

Crëwyd y Gangen Cysylltu yn Hydref 2024 mewn ymateb i brosiect darganfod Cymunedol manwl a nododd feysydd allweddol i'w blaenoriaethu er mwyn trawsnewid y ffordd y mae'r Elusen yn gweithio gyda chymunedau lleol. Mae ein strategaeth pum mlynedd newydd yn canolbwyntio'n fanwl ar bwysigrwydd blynyddoedd cynnar ac yn anelu at gyrraedd a chefnogi teuluoedd mor gynnar â phosibl. Mae trawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio gyda chymunedau, ac o'u mewn, wrth wraidd y modd y byddwn yn cyflawni hyn.

Mae'r Gangen Cysylltu yn fenter hollol newydd sy'n anelu at ysgwyd ein dull o weithio'n llwyr er mwyn cyrraedd pob plentyn byddar a theulu sydd ein hangen. Mae Cysylltwyr Cymunedol yn rhieni neu'n ofalwyr plant byddar, sydd drwy eu profiad byw a'u brwdfrydedd naturiol yn gwneud newid trawsnewidiol yn unol ag anghenion eu cymuned a gwerthoedd craidd Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar. Mewn partneriaeth â'u cymunedau a'u gwasanaethau, maen nhw'n archwilio pa gymorth sydd ei angen ar blant byddar a'u teuluoedd, a sut y mae'r Elusen yn ymgysylltu â'r anghenion hyn. Yn gryno, mae'r gymuned yn dweud wrthym ni beth sydd ei angen, ac rydym ni'n ymatebi'r anghenion hyn drwy gyd-gynhyrchu mentrau.

### Am y rôl

Mae'r Cysylltydd Cymunedol yn chwarae rhan hanfodol i feithrin cysylltiadau ac adeiladu pontydd cymorth er mwyn trawsnewid a theilwra cefnogaeth i anghenion plant byddar a'u teuluoedd mewn cymunedau lleol. Bydd y rhiant gysylltydd yn defnyddio ei wybodaeth am yr ardal leol, ei berthnasau presennol a'i arweinyddiaeth naturiol fel rhywun sy'n sbarduno newid er mwyn cyrraedd mwy o deuluoedd yn gynnar ac i adeiladu cysylltiadau o'r pwynt diagnosis ymlaen. Bydd y rôl yn cydnabod yr amrywiaeth o anghenion o fewn y gymuned ac yn addasu'r cymorth drwy ddeall beth sydd ei angen

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

ar deuluoedd ar bob cam o'u taith. Gall hyn amrywio o ddarparu cefnogaeth emosiynol a chysylltu'r rhiant â theuluoedd eraill yn y gymuned i rannu gwybodaeth ymarferol a chyfeirio.

Lle bo bylchau mewn cymorth cymunedol, bydd y Cysylltydd Cymunedol yn hwyluso creu mentrau newydd ynghyd â rhieni a gwirfoddolwyr eraill yn y gymuned. Elfen allweddol o'r rôl fydd adeiladu perthnasau gwaith effeithiol gydag Athrawon y Byddar (ToD), Awdiolegwyr, Penaethiaid Gwasanaethau ac Awdurdodau Lleol, a'r gallu i gydweithio gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol, grwpiau lleol ac elusennau eraill i asesu anghenion lleol a chyd-gynhyrchu atebion.

Mae Cysylltwyr Cymunedol yn eistedd wrth galon y gymuned ac wrth galon y sefydliad. Fel rhan o dîm rhanbarthol, a chymuned ehangach y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, bydd gan y rolau hyn fynediad at hyfforddiant, cyfleoedd dysgu a datblygu a chefnogaeth gan gydweithwyr medrus mewn diwylliant ystwyth, blaengar a chydweithredol.

**Sut y gallai diwrnod ym mywyd Cysylltydd Cymunedol edrych:**

- Byddwch chi'n arwain ar y dull o nodi bylchau mewn cymorth ac adeiladu cysylltiadau yn eich cymuned. Byddwch chi'n defnyddio'ch gwybodaeth a'ch sgiliau i feithrin perthnasau agos â gweithwyr proffesiynol, grwpiau lleol a'r gymuned fyddar.
- Byddwch chi'n sefydlu llwybr atgyfeirio drwy feithrin partneriaethau gydag Athrawon y Byddar (ToDs), Awdiolegwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn eich cymuned, fel y gall pob teulu sydd â phlentyn byddar dderbyn ein cefnogaeth mor gynnar â phosibl.
- Byddwch chi'n cysylltu â theuluoedd yn fuan ar ôl diagnosis, gan deilwra'r cymorth i'w hanghenion penodol.
- Byddwch chi'n cynyddu'r cysylltiadau rhwng rhieni, gweithwyr proffesiynol, grwpiau lleol, ysgolion, Gweithgorau Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG), a thrwy gyd-gynhyrchu, cyfleu argymhellion yn ôl i Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar gyfer newid trawsnewidiol i'r ffordd y mae plant byddar a'u teuluoedd yn eich cymuned yn cael eu cefnogi.
- Byddwch chi'n rhannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu gyda Rhieni Gysylltwyr eraill ac addysgu Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar feysydd allweddol i'w blaenoriaethu, er mwyn sicrhau ein bod ni'n galluogi adeiladu capasiti a galluoedd cynaliadwy lle y mae eu hangen.

# Disgrifiad Rôl

## Aelod Cangen - Cysylltu

National Deaf Children's Society

**Pwy ydych chi?**

- Rydych chi'n rhiant neu'n brif ofalwr plentyn byddar ac mae gennych chi brofiad uniongyrchol o lywio'r gwasanaethau cymorth yn eich ardal ar gyfer plant byddar.
- Rydych chi'n angerddol dros wneud gwahaniaeth i blant byddar a'u teuluoedd, ac yn cymryd rhan weithgar yn natblygiad cymunedol.
- Byddwch chi'n eiriolwr naturiol dros newid, a thrwy brofiad byw a'ch diddordeb chi eich hun, yn gweithio i wella'r cymorth sydd ar gael i blant byddar a theuluoedd.
- Byddwch chi'n aelod gweithgar o'ch cymuned leol o rieni plant byddar ac wedi meithrin rhwydwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth a phrofiad.
- Rydych chi'n croesawu'r ffaith bod pob plentyn byddar a'u teuluoedd/ofalwyr yn wahanol.
- Rydych chi'n credu bod gan bob teulu yr hawl i gael eu hysbysu'n llawn ac i gael yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddyn nhw er mwyn gallu penderfynu ar y dull gorau ar gyfer eu plentyn.
- Rydych chi'n gydweithiwr naturiol, yn empathig ac yn effeithiol iawn wrth adeiladu perthnasau cadarnhaol gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol.
- Rydych chi'n gallu gweithio'n rhagweithiol, gan gynnwys defnyddio'ch menter eich hunan i ddatrys heriau cymhleth ac i hyfforddi eraill i wneud yr un peth. cymhleth
- Rydych chi'n gallu dangos sgiliau cyfathrebu ac arweinyddiaeth cryf ar bob lefel, gyda gallu dibynadwy i ddod â phobl ynghyd.

---

**Beth fydd yn eich pecyn offer?**

- Profiad dangosadwy o ddatblygu perthnasau gyda chyllidwyr, o chwilio am gyfleoedd i greu partneriaethau.
- Byddwch chi'n adeiladu perthnasu'n naturiol, gyda sgiliau diplomyddol cryf er mwyn gallu meithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol er mwyn sefydlu perthynas a hyder.
- Byddwch chi'n deall y systemau cymorth, ffurfiol ac anffurfiol, o fewn eich cymuned drwy brofiad byw.
- Byddwch chi'n ysgogi newid yn effeithiol, wedi eirioli dros eich plentyn neu blant yn eich gofal, a hefyd wedi helpu neu gynghori rhieni neu ofalwyr eraill.
- Rydych chi'n ymdrechu'n barhaus i wneud gwelliannau sy'n gwneud gwahaniaeth i blant byddar a'u teuluoedd a gofalwyr.
- Byddwch chi'n ymgorffori ac yn hyrwyddo dewis gwybodus, gan roi barn bersonol o'r neilltu er mwyn gweithredu'n gyson fel llais diduedd ac annibynnol ar ran y gymuned.

National Deaf Children's Society

**Beth fyddwch chi'n ei gynnig?**

- Meddylfryd o fynd amdani a ffocws ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- Parodrwydd i rannu meddyliau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad.
- Meddylfryd agored, ac yn barod i groesawu cysyniadau a syniadau newydd.
- Sgiliau cydweithio naturiol, ynghyd â chyfathrebu clir.
- Gallu i addasu o fewn amgylchedd sy'n newid yn gyson.
- Dymuniad i ddysgu egwyddorion Agile ac i ffynnu o fewn amgylchedd prosiect Agile.
- Sgiliau digidol cryf (Microsoft 365).
- Y gallu i ddysgu o gamgymeriadau ac i beidio ag ofni methiant.
- Brwdfrydedd dros roi a derbyn adborth parhaus.
- Angerdd dros welliant parhaus – gan fyfyrio ar gynnydd a pherfformiad.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

# Manyleb y Person

## Cysylltydd Cymunedol

National Deaf Children's Society

| Meini Prawf Hanfodol | | Sut caiff eu mesur |
|---|---|---|
| *Ca – Cais Cyf – Cyfweliad P – Prawf neu Gyflwyniad Cym - Cymhwyster* | | |
| 1. | Profiad byw drwy fod yn rhiant neu'n brif ofalwr i blentyn byddar. | Ca / Cyf |
| 2. | Aelod gweithgar o'r gymuned leol. | Ca / Cyf |
| 3. | Profiad o ymgysylltu'n adeiladol gyda gwasanaethau lleol. | Ca / Cyf |
| 4. | Yn rhagorol wrth adeiladu perthnasau a chydweithio. | Ca / Cyf |
| 5. | Rhywun sy'n sbarduno newid o fewn eich cymuned leol, gan wella rhwydweithiau cymorth i blant byddar a'u teuluoedd/gofalwyr. | Ca / Cyf |
| 6. | Dealltwriaeth bod pob plentyn byddar a'u teuluoedd/gofalwyr yn wahanol, ynghyd â gwybodaeth am y dewisiadau cymorth ac iaith sydd ar gael drwy ddewis gwybodus. | Cyf / P |
| 7. | Sgiliau cyfathrebu a diplomyddiaeth cryf, gyda'r gallu i fod yn empathig ac i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas gadarn. | Cyf / P |
| 8. | Yn gyfforddus yn gweithio'n annibynnol yn ogystal â fel rhan o dîm ehangach. | Cyf |
| 9. | Dealltwriaeth o bwysigrwydd diogelu. | Cyf |
| 10. | Meddylfryd agored ac yn croesawu cysyniadau a syniadau newydd. | Cyf |
| 11. | Trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd ar gyfer teithio rhanbarthol. | Ca |
| 12. | Y gallu i weithio'n hyblyg, gyda rhywfaint o waith ar benwythnosau ac yn y nosweithiau. | Cyf |

| Meini Prawf Dymunol | | Sut caiff eu mesur |
|---|---|---|
| *Ca – Cais Cyf – Cyfweliad P – Prawf neu Gyflwyniad Cym - Cymhwyster* | | |
| 1. | Sgiliau digidol cryf a dealltwriaeth gadarn o werthoedd ac egwyddorion Agile. | Ca |
| 2. | Lefel 1 neu uwch mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL), lefel dda o ymwybyddiaeth am fyddardod a/neu'n gweithio tuag at Lefel 1 mewn BSL neu uwch. Dealltwriaeth a phrofiad o fyddardod a sgiliau Iaith Arwyddion Prydain, neu barodrwydd i ddysgu. | Ca / Cym |
| 3. | Rhiant sy'n gynrychiolydd ar Weithgor Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG) neu'n aelod o'u Cymdeithas i Blant Byddar Leol (LDCS). | Ca / Cyf |

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Mynediad at y gymuned fyddar neu yn barod yn gweithio gyda nhw. | Cyf |
| 5. | Perthnasau sefydledig gyda Phennau Gwasanaethau yn eu hardal. | Ca |
| 6. | Gwybodaeth am, a/neu barodrwydd i ymgysylltu â, ac i ddeall anghenion cymunedau lleiafrifol yn eich ardal leol, a'r dulliau gorau o'u cyrraedd. | Cyf |
| 7. | Y gallu i siarad iaith ychwanegol, a/neu'r hyder yn eu sgiliau cyfathrebu i ddeall a rhyngweithio â chymunedau a grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd. | Ca / Cyf |

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).